CDLl

# Ceredigion

## Cynllun Datblygu Lleol 2007 - 2022

## Canllawiau Cynllunio Atodol Mannau Agored

















Cyngor Sir Ceredigion, Mabwysiedig Ebrill 2014

Cyngor Sir CEREDIGION
CEREDIGION County Council

Delweddau: © RAY Ceredigion. Arian grant Chwarae Plant y Loteri Fawr a'r Cynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007 - 2013 a ariennir drwy Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r Undeb Ewropeaidd, © Play England

# Cynnwys


1. Cyflwyniad 1
2. Fannau Agored 1
   2.1 Pam mae'r Seilwaith Gwyrdd yn bwysig? 4
   2.2 Mannau Agored a Chynllunio 4
3. Mathau o Fannau Agored 6
   3.1 Man Gwyrdd Amwynder Naturiol 6
   3.2 Man Gwyrdd Naturiol Hygyrch Cymunol 7
   3.3 Man Chwarae Naturiol Heb Offer 8
   3.4 Man Chwarae Naturiol ag Offer 9
4. Mannau Agored a Bioamrywiaeth 11
   4.1 Mannau Agored a'r Dull Ecosystem 11
5. Cyfrifo Man Agored ar Safleoedd Datblygu 11
6. Cynllunio Man Agored 14
7. Mannau Chwarae 15
8. Y Deg Egwyddor ar gyfer Cynllunio Mannau Chwarae 16
9. Mannau Agored Mewn Datblygiadau Dibreswyl 17
10. Cynnal a Chadw a Mabwysiadu Man Agored 17
11. Y Broses Cais Cynllunio a Mannau Agored Newydd 18
12. Man Agored sy'n Bodoli 18
13. Cais Cynllunio a Man Agored sy'n Bodoli 20
14. Casgliad 20

Cyfeiriadau ac Adnoddau 21

Geirfa 21

Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) hyn yn un o gyfres o nodiadau cyfarwyddyd sy'n ategu polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl). Er y bydd penderfyniadau ar geisiadau cynllunio yn seiliedig ar bolisïau'r CDLl (fel y nodir yn rhan 38(6) Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004), mae cynnwys y CCA yn ystyriaeth gynllunio berthnasol.

Nid yw'r Canllawiau’n amlinellu polisi yn annibynnol ar y CDLl; mae'n darparu cyfarwyddyd atodol yn unig. Felly, yn unol â Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004, barnwyd na ddylai fod yn destun Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) ar wahân. Gellir gweld canlyniadau'r Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol o'r polisïau sy'n berthnasol i'r CCA hwn, sef Polisi LU22: Darpariaeth Gymunedol, a Pholisi LU24: Darparu Mannau Agored Newydd, yn Atodiad 3 o Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd Terfynol Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion (Ebrill 2013).

# 1. Cyflwyniad

Prif bwrpas y CCA hyn yw helpu dehongli a chymhwyso polisïau cenedlaethol a lleol sy'n ymwneud â gwarchod y mannau agored presennol a chreu mannau agored newydd. Felly mae'r CCA yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ynghylch pob cais cynllunio a allai effeithio ar y mannau agored presennol neu ddatblygu mannau agored newydd. Bydd yn rhoi canllawiau manwl i'r cyhoedd, datblygwyr, swyddogion cynllunio a phwyllgor cynllunio'r Cyngor ar faterion cynllunio sy'n ymwneud â mannau agored. Mae'r Canllawiau'n:

- cyflwyno'r cyd-destun polisi cynllunio perthnasol mewn perthynas â darparu man agored a ble y gallai datblygiad effeithio ar fannau agored;
- rhoi trosolwg o'r elfennau amrywiol y mae'n rhaid eu hystyried wrth ddarparu man agored a ble y gallai datblygiad effeithio ar fannau agored;
- rhoi cyfarwyddyd clir i ddatblygwyr, Aelodau a swyddogion cynllunio mewn perthynas â mannau agored.

# 2. Fannau Agored

Mae Cyngor Ceredigion yn elwa ar harddwch naturiol arbennig a cheir amryw o fannau agored ac amwynder ledled Ceredigion, rhai ffurfiol ac anffurfiol, rhai preifat a chyhoeddus.

Mae mannau agored yn annog pobl i fod yn heini yn eu ffordd o fyw sy'n fuddiol mewn amryw o ffyrdd gan ei bod yn cynnig cyfleoedd i gael hwyl, rhoi cynnig ar bethau newydd, cwrdd â phobl newydd ac arwain at ffordd o fyw sy'n fwy iach.

At ddibenion y CDLl diffinnir man agored fel pob man agored o werth cyhoeddus, gan gynnwys nid dim ond tir, ond hefyd gyrff o ddŵr sy'n cynnig cyfleoedd pwysig ar gyfer chwaraeon a hamdden yn yr awyr agored sydd hefyd yn gweithredu fel amwynder gweledol. Yn y CDLl mae man agored yn y cyd-destun hwn yn cynnwys mannau o fewn datblygiadau newydd a fyddai'n cael eu hystyried yn 'breifat', hynny yw, cânt eu datblygu ar gyfer preswylwyr safleoedd tai newydd neu swyddfeydd newydd ac ati. Er y byddai'r ddarpariaeth hon yn cael ei datblygu i ateb anghenion datblygiad penodol a'i breswylwyr, bydd ymwelwyr sy'n dod i'r safle hefyd yn elwa ac felly daw'r man preifat yn fan lled-breifat.

Mae mannau agored yn rhoi cyfle i breswylwyr Ceredigion fod yn fwy heini ac iach ond mae hefyd fanteision economaidd yn gysylltiedig â gwell amgylchedd gwaith yn ogystal â chyfleoedd i wella'r amgylchedd. Mae manteision anuniongyrchol i fannau agored hefyd, er enghraifft, gwella'r amgylchedd megis puro dŵr, puro aer a bwyd i beillwyr.

Gall safle sydd wedi'i dirlunio'n dda, ac sy'n cynnwys mannau agored, ychwanegu gwerth at safle datblygu. Mae'r datblygiad newydd hefyd yn debygol o weddu'n well i'r tirlun sydd yno os yw'n cynnwys tyfiant aeddfed a sgrinio fel rhan o'r safle.

Wrth ystyried man agored mae'n bwysig meddwl am yr holl fathau o fannau agored. Mae'n hawdd adnabod mannau agored ffurfiol megis parciau, gerddi ffurfiol, meysydd pentref, mannau chwarae a meysydd chwarae fel mannau agored, ond mae nifer o fannau naturiol a lled-naturiol yng Ngheredigion megis y traeth, llwybrau coedwig, gwlypdiroedd ac ati, sydd â rôl bwysig o ran darparu man agored. Mae rhai mannau hefyd nad ydynt yn cael eu cydnabod yn aml efallai am eu cyfraniad pwysig i'r ddarpariaeth gyffredinol o fannau agored. Mae ardaloedd o'r fath yn cynnwys gerddi preifat, glannau afonydd, rhandiroedd, llwybrau beicio, llwybrau cerddwyr a mynwentydd sydd i gyd yn amgylcheddau pwysig ac yn cynnig naill ai mynediad i fan agored neu deimlad o fod o fewn neu gael eich amgylchynu gan fan 'gwyrdd'.

Gan edrych ar y cyfan gyda'i gilydd, mae'r gwahanol fathau o fannau agored ffurfiol ac anffurfiol, naturiol ac artiffisial, yn cael eu galw'n 'Seilwaith Gwyrdd'.

Gall Seilwaith Gwyrdd gael ei ystyried yn rhwydwaith o fannau agored gweithredol. Mae'r mannau hyn yn cynnal prosesau naturiol ac ecolegol ac yn hollbwysig i iechyd ac ansawdd bywyd trigolion Ceredigion.

Yn syml, seilwaith gwyrdd yw'r mannau 'gwyrdd a 'glas' (gweler isod am ddiffiniadau) sy'n gwneud Ceredigion yn lle naturiol brydferth.

Seilwaith Gwyrdd sef rhwydwaith o fannau gwyrdd a glas o ansawdd uchel a nodweddion amgylcheddol eraill

Mae mannau gwyrdd yn cynnig cyfleusterau preifat a chyhoeddus sy'n cynnwys: gerddi, cloddiau, parciau, coed stryd, coetiroedd, a thoeon gwyrdd.



Hawlfraint y Goron (Croeso Cymru)

Llwybr coedwig



Hawlfraint y Goron (Croeso Cymru)

Cwm gwyrdd



Hawlfraint Cyngor Sir Ceredigion

To gwyrdd

Mae mannau glas yn cynnwys y môr, afonydd, llynnoedd a phyllau.



Hawlfraint y Goron (Croeso Cymru)

Pwll



Hawlfraint y Goron (Croeso Cymru)

Mwnt



Hawlfraint y Goron (Croeso Cymru)

Llwybr ger nant

Drwy'r CCA byddwn yn cyfeirio nid yn unig at fannau agored ond hefyd at y Seilwaith Gwyrdd.

Pan gyfeiriwn at Fannau Agored golygwn y mannau y gellir cael mynediad iddynt ar sail gyhoeddus neu led-breifat. Er enghraifft, man chwarae neu lwybr coedwig.

Pan gyfeiriwn at y Seilwaith Gwyrdd, rydym yn trafod yr holl ddarnau o fannau agored, rhai preifat a chyhoeddus, sydd gyda'i gilydd yn ffurfio'r Seilwaith Gwyrdd. Y ffordd hawsaf o feddwl am hyn yw gweld y Seilwaith Gwyrdd fel ysgyfaint gwyrdd Ceredigion.

Yn gyffredinol mae'r CCA yn canolbwyntio ar greu mannau agored newydd.

Mae pob man agored sy'n cael ei gynllunio ymlaen llaw yn gallu bod yn fannau amlddefnydd, sy'n helpu i gyfrannu at y Seilwaith Gwyrdd cyffredinol. Er enghraifft, gall man chwarae naturiol helpu i fodloni gofynion bioamrywiaeth (polisïau DM14: Cadwraeth Natur a Chysylltedd Ecolegol, DM15: Cadw Bioamrywiaeth Lleol, DM20: Gwarchod Coed, Gwrychoedd a Choetiroedd) a helpu i sicrhau draenio cynaliadwy yr un pryd (polisi DM13: Systemau Draenio Cynaliadwy). Po fwyaf y mae mannau yn rhai amlddefnydd a rhyng-gysylltiedig, y mwyaf llwyddiannus a chynaliadwy y maent.

Mae gwarchod asedau treftadaeth naturiol sy'n bodoli a gwella bioamrywiaeth yn egwyddorion sylfaenol wrth ystyried y seilwaith gwyrdd.

Dylai dyluniad strydoedd, mannau agored newydd a systemau rheoli dŵr gael eu cynllunio i wella seilwaith naturiol gwyrdd (a glas) y safle, gan greu rhwydwaith integredig o gynefinoedd, darparu llwybrau bywyd gwyllt a gwella bioamrywiaeth.

## 2.1 Pam mae'r Seilwaith Gwyrdd yn bwysig?

Bydd gwarchod a gwella'r Seilwaith Gwyrdd, ac fel rhan o hyn rwydweithiau gwyrdd a mannau agored yng Ngheredigion a'r cyffiniau, yn helpu'r Cyngor a sefydliadau eraill, er enghraifft Cyfoeth Naturiol Cymru, i gyflawni nifer o'i flaenoriaethau. Gall y Seilwaith Gwyrdd wneud llefydd yn fwy prydferth a diddorol a helpu i wella eu cymeriad a rhoi hunaniaeth unigryw iddynt.

> Gall Seilwaith Gwyrdd gynnig nifer o fanteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn agos at le mae pobl yn byw ac yn gweithio.

Fel y nodwyd yn flaenorol mae mannau agored yn un elfen o ddarparu Seilwaith Gwyrdd. Mae'r CCA hwn yn canolbwyntio ar fannau agored a sut y dylid eu creu. Penderfynwyd canolbwyntio ar hyn oherwydd bod creu man agored fel rhan o ddatblygiad newydd yn ffordd weithredol i ddatblygiad newydd allu helpu i gyfrannu at y Seilwaith Gwyrdd. Mae Cyfarwyddiadau Cynllunio Atodol eraill megis yr Amgylchedd Adeiledig a Chadwraeth Natur i gyd yn cyfrannu at Seilweithiau Gwyrdd, ac mae'r rhain yn rhoi canllawiau manwl ar eu helfennau penodol.

Mae darparu a gwella mannau agored yn helpu mewn tair ffordd.

| **Manteision Amgylcheddol** | **Manteision Cymdeithasol** | **Manteision Economaidd** |
|---|---|---|
| Gwella'r tirlun naturiol | Hybu ffyrdd o fyw mwy iach a heini | Gwneud Ceredigion yn fwy deniadol i fuddsoddwyr a gweithwyr |
| Ymateb gweithredol i newid hinsawdd | Gwella ansawdd bywyd | |
| Cynnal bioamrywiaeth | Hybu cydlyniant cymunedol a rhyngweithio cymdeithasol | |
| Lleihau'r risg o lifogydd | | |

## 2.2 Mannau Agored a Chynllunio

Mae polisi cynllunio cenedlaethol a lleol yn helpu i warchod mannau agored sy'n bodoli ac yn annog datblygu rhai newydd.

Mae'r elfen genedlaethol hon yn cael ei hategu ymhellach o fewn Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion (CDLl) 2007-2022. Mae gan y CDLl amryw o bolisïau sy'n ceisio gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol a mannau agored gan geisio sicrhau elfennau newydd hefyd a fydd yn cyfrannu at y seilwaith gwyrdd.

Y polisïau yw:

- Polisi LU22: Darpariaeth Gymunedol
- Polisi LU24: Darparu Mannau Agored Newydd
- Polisi DM10: Dylunio a Thirweddu
- Polisi DM13: Systemau Draenio Cynaliadwy
- Polisi DM14: Cadwraeth Natur
- Polisi DM15: Cadw Bioamrywiaeth Leol
- Polisi DM20: Gwarchod Coed, Gwrychoedd a Choetiroedd
- Polisi DM23: Rheoli'r Arfordir

Galwch weld y polisïau hyn ar wefan y Cyngor: http://www.ceredigion.gov.uk/ldp. Pan gânt eu defnyddio ar y cyd mae'r polisïau hyn yn ceisio gwarchod mannau a nodweddion pwysig sy'n bodoli ond maent hefyd yn sicrhau datblygu mannau newydd.

Mae Polisi LU24: Darparu Mannau Agored Newydd yn ceisio darparu man agored ychwanegol pan fydd yn briodol fel rhan o ddatblygiadau newydd. Mae'n rhaid i bob safle tai dynodedig ddarparu rhyw elfen o fan agored. Yn ogystal bydd rhaid i unrhyw safle annisgwyl neu heb ei ddynodi sy'n darparu mwy na 10 ystafell wely gynnig rhyw elfen o fan agored.

**Polisi LU24:**

**Darparu Mannau Agored Newydd**

Lle pennir hynny yn Natganiadau'r Grŵpiau Aneddiadau, bydd rhaid i dir a ddynodir ar gyfer tai wneud darpariaeth ar gyfer man agored.

Hefyd bydd rhaid i ddatblygu sy'n digwydd ar safleoedd annisgwyl a heb eu dynodi ddarparu man agored os yw'r datblygiad yn arwain at ddarparu cyfanswm o fwy na 10 ystafell wely.

Bydd rhaid i unrhyw ddarpariaeth man agored fodloni Meincnodau Gwyrddfannau Agored Naturiol Hygyrch Cyngor Cefn Gwlad Cymru a Safon Meincnod Mannau Chwarae Plant Meysydd Chwarae Cymru a chanllawiau dylunio pellach yn y Canllawiau Cynllunio Atodol.

## 3. Mathau o Fannau Agored

Bydd y math a'r lefel o ddarpariaeth o fannau agored newydd yn dibynnu ar faint y datblygiad. Bydd y ddarpariaeth yn seiliedig ar le agored naturiol wedi'i rannu'n bedwar categori. Y categorïau yw:

> Cofiwch fod angen mannau agored yn angenrheidiol ar ddatblygiadau newydd sy'n cynnwys 10 neu ragor o ystafelloedd gwely.

### 3.1 Man Gwyrdd Amwynder Naturiol

Wedi'i anelu at drigolion o bob oed. Dyma'r math lleiaf o ddarpariaeth man agored sy'n debygol o gael ei geisio ac mae'n canolbwyntio ar dirlunio'r safle, gan ganolbwyntio ar gadw a/neu wella nodweddion naturiol o ansawdd uchel lle y bo'n bosibl. Nod y man agored lefel sylfaenol hwn yw annog symud drwy'r datblygiad, boed yn gorfforol neu'n weledol, drwy gael tirlun a phlannu diddorol a deniadol ar y safle. Mae'r math hwn o fan agored yn pwysleisio pwysigrwydd man amwynder gweledol a sut mae datblygiad â gwyrddni yn lle mwy croesawgar i fyw ynddo a'i fwynhau.

Mae Man Gwyrdd Amwynder Naturiol yn gweithio ar y cyd â thirluniad cyffredinol datblygiad newydd ac felly dylid ystyried y mathau o dirlunio i'w defnyddio. I gael cyfarwyddyd pellach ar ddatblygu a thirlunio, cyfeiriwch at y CCA: Yr Amgylchedd Adeiledig, pan gaiff ei gyhoeddi.

Bydd defnyddio coed, llwyni, gerddi blaen gyda waliau/cloddiau ffiniol isel i gyd yn ychwanegu at gyfoeth gweledol y datblygiad.

Mae'r math hwn o fan agored yn rhoi cyfle i'r datblygwr fodloni'r ddarpariaeth man agored a nodwyd ym mholisi LU24 ond hefyd y ddarpariaeth tirlunio sy'n ofynnol gan bolisi DM10: Dylunio a Thirweddu sy'n gofyn i bob datblygiad newydd ddarparu cynllun tirlunio.



### 3.2 Man Gwyrdd Naturiol Hygyrch Cymunol

Wedi'i gynllunio ar gyfer trigolion o bob oedran, mae'r man hwn o fan agored yn debyg i Fan Gwyrdd Amwynder Naturiol ond ar raddfa fwy. Mae'n lle naturiol i led-naturiol y dylai trigolion allu cael mynediad iddo a'i ddefnyddio unrhyw bryd, felly nid yw ar gyfer un grŵp diffiniedig, e.e. plant bach, ond i'r holl drigolion.

Mae cael mynediad i fannau gwyrdd naturiol i gael awyr iach, ymarfer corff a myfyrio'n dawel yn cynnig manteision i iechyd corfforol a meddyliol. Gall mannau gwyrdd gynnig buddion ecolegol ond maen nhw hefyd yn ein helpu i addasu i newidiadau yn yr hinsawdd drwy eu rôl o leihau'r risg o lifogydd ac erydiad pridd er enghraifft. Unwaith eto mae'r math hwn o fan agored yn golygu y gall datblygwyr fodloni gofynion niferus y CDLl o ran bioamrywiaeth, tirlunio a systemau draenio cynaliadwy.

Pwrpas y man agored hwn yw cynnig ardal lle y gall pobl fynd iddi a bod yn agos i natur, a'r prif deimlad felly yw lle naturiol. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (Cyngor Cefn Gwlad Cymru gynt) yn diffinio Man Gwyrdd Naturiol fel a ganlyn:

1. Coetiroedd a choedlannau sydd â phrysgoed yn tyfu'n ddiatal, neu laswelltir a reolir yn llai dwys, o dan y coed. Coed a chellïau coed sydd â phrysgoed yn tyfu'n ddiatal, neu laswelltir a reolir yn llai dwys, o danynt.

2. Prysgoed a mân brysglwyni (e.e. rhostir) yn tyfu'n rhydd.

3. Glaswelltir garw, glaswelltir wedi'i led-wella, perlysiau gwyllt a phlanhigion porfa (forbs) uchel.

4. Creigiau a phridd noeth lle caiff olyniaeth naturiol rwydd hynt (gan gynnwys pridd noeth tiroedd diffaith).

5. Dyfroedd agored a thir corsiog gyda chawn, planhigion porfa uchel ayb.

6. Glannau môr sydd â nodweddion naturiol megis traethellau llanwol, twyni tywod neu draethau creigiog.

Wedi'i gymryd o ddogfen Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Darparu Gwyrddfannau Naturiol Hygyrch mewn Trefi a Dinasoedd: Arweiniad Ymarferol i Asesu'r Adnoddau a Gweithredu Safonau Lleol ar gyfer Darpariaeth yng Nghymru.

Mae'r Awdurdod yn derbyn nad yw coetiroedd neu ddyfroedd agored newydd yn debygol o gael eu datblygu o fewn datblygiad tai newydd. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod o'r farn y gall lle naturiol gael eu darparu a dyma rai enghreifftiau o sut i wneud hyn:

- Ardal 'wyllt': darn o dir wedi'i adael i natur, e.e. glaswellt hir, llwyni naturiol sy'n tyfu'n ddiatal;

- Plannu coedlan fach;
- Pantiau: bydd hyn hefyd yn helpu i greu systemau draenio cynaliadwy (polisi DM13) a lle gwlyb naturiol (am ragor o wybodaeth ar systemau draenio cynaliadwy cyfeiriwch at y CCA: Yr Amgylchedd Adeiledig pan gaiff ei gynhyrchu).

## 3.3 Man Chwarae Naturiol Heb Offer

Mae man chwarae naturiol yn rhoi cyfle i blant archwilio'r byd o'u cwmpas mewn lleoliad brodoredig. Mae'n dirlun chwarae lle mae planhigion a choed yn darparu'r cefndir ar gyfer heriau a hwyl gorfforol a chreadigol. Rhai pethau i'w hystyried yw:

- Glaswellt hir a bodau gwyllt: Yn aml caiff ardaloedd o laswellt eu torri yn rheolaidd i ddarparu mannau chwarae anffurfiol, ond gall plannu glaswellt hir a blodau gwyllt hefyd ddarparu cynefin a man chwarae (gan felly bodloni gofynion polisïau man agored a pholisïau bioamrywiaeth y CDLl);
- Planhigion ar gyfer chwarae: gall planhigion wedi'u trefnu fod yn dai chwarae, cuddfannau, cestyll, canolfannau a gwersylloedd cartref;
- Gall planhigion o wahanol liw, arogl a gwead ychwanegu diddordeb at chwarae naturiol;
- Twmpathau glaswelltog: defnyddio pridd dros ben gan greu twmpath glaswelltog i'r plant allu rhedeg neu rolio i lawr.



### 3.4 Man Chwarae Naturiol ag Offer

Man chwarae naturiol yw hwn gydag offer wedi'u hanelu at blant, ond nid grŵp oedran penodol. Nid oes rhaid i'r offer olygu offer chwarae traddodiadol, e.e. siglenni, trogylchau, ond gall fod yn fwy natur ysbrydoledig, e.e. twnneli, rholiau boncyff, twmpathau glaswelltog ac ati. Mae rhai enghreifftiau y gellid eu hystyried yn cynnwys:

- Boncyffion chwarae: Gellir trefnu boncyffion o'r coetiroedd cyfagos mewn patrymau i greu seddi, trawstiau cydbwyso neu gyfleoedd chwarae eraill. Gall y rhain ffurfio elfennau chwarae gwych fel y maent, wedi'u cafnu a'u siapio gan gerflunydd, neu eu cydbwyso rhwng dau bwynt a naill ai eu defnyddio fel trawst cydbwyso neu sedd;

- Llwybrau chwarae: Mae llwybr wedi'i ddylunio a'i adeiladu mewn ffordd ddiddorol yn darparu amryw o gyfleoedd chwarae i'r rhai sydd â'r dychymyg i greu eu hantur neu eu gêm eu hunain;

- Clogfeini: Gall clogfeini gael eu defnyddio i greu drysfa, seddi, neu gerrig camu;

- Cerflunwaith: Gall cerflunwaith a chelf, yn barhaol neu dros dro, ychwanegu dimensiwn ychwanegol at chwarae'r plant, yn arbennig os yw'r plant wedi cymryd rhan yn eu creu.

- Llaid a dŵr: Mae'n bosib cynnwys dŵr (pyllau bach, pwdelau a mannau lleidiog) mewn mannau agored mewn ffordd ddiogel;

- Twmpathau glaswelltog a ffosydd: Mae plant yn mwynhau rhedeg i fyny ac i lawr llethrau, ac mae hyd yn oed yn fwy o hwyl i rolio lawr nhw! Mae ffosydd yn rhoi cyfle i blant guddio a neidio allan ar ffrindiau a pherthnasau;

- Coed: Weithiau mae'n rhaid symud coed fel rhan o'r datblygiad, ond yn lle cael gwared â nhw gellir eu defnyddio i ddarparu seddi, trawstiau cydbwyso, neu strwythur dringo;

- Cuddfannau a chyfleoedd i giledrych: mae cael ychydig o blannu sy'n darparu cuddfan yn rhoi cyfle i blant sleifio a neidio allan ar ffrindiau a pherthnasau.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (y Comisiwn Coedwigaeth gynt) wedi datblygu nifer o nodiadau cyfarwyddyd ar y mathau gwahanol o fannau chwarae naturiol y gellir eu creu, ac maen nhw ar gael yn: http://www.forestry.gov.uk/forestry/INFD-7LSEHW



Mae'r holl ddelweddau hawlfraint Play England



Mae'r holl ddelweddau hawlfraint RAY Ceredigion. Arian grant Chwarae Plant y Loteri Fawr a'r Cynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007 - 2013 a ariennir drwy Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r Undeb Ewropeaidd

# 4. Mannau Agored a Bioamrywiaeth

Mae darparu mannau agored yn gwella lles corfforol a meddyliol pobl, ond gall hefyd ddarparu ardaloedd mawr eu hangen ar gyfer bioamrywiaeth a chynefinoedd bywyd gwyllt i ymsefydlu o fewn ein hamgylchedd adeiledig. Yn ei dro, mae hyn yn darparu mynediad i natur i bobl o bob oedran a symudedd, boed yn fynediad corfforol i'r safleoedd neu dim ond o ran amwynder gweledol.

Dylid achub ar gyfleoedd i gadw ardaloedd presennol sydd o bwysigrwydd i fywyd gwyllt a chreu cynefinoedd bywyd gwyllt a llwybrau gwyrdd newydd. Gweler y CCA: Cadwraeth Natur pan gaiff ei gyhoeddi i gael rhagor o wybodaeth a pholisïau DM14: Cadwraeth Natur a Chysylltedd Ecolegol a DM15: Cadw Bioamrywiaeth Leol y CDLl.

## 4.1 Mannau Agored a'r Dull Ecosystem

Mae'r Confensiwn Amrywiaeth Fiolegol yn datgan:

> 'Mae'r dull ecosystem yn strategaeth ar gyfer rheoli tir, dŵr ac adnoddau byw mewn modd integredig sy'n hyrwyddo cadwraeth a defnydd cynaliadwy mewn ffordd gyfartal.'

Mae'r seilwaith gwyrdd yn ffurfio rhan o'r dull ecosystem. Gall mannau agored ddarparu amrywiaeth o wasanaethau os cânt eu dylunio'n ofalus ac os dilynir y dull ecosystem. Gall hyn gynnwys effeithiau cadarnhaol ar iechyd a lles, atal llifogydd, puro dŵr, puro aer, bwyd i beillwyr ac ati.

Dylai man agored, sy'n un elfen o'r Seilwaith Gwyrdd, gael ei ddylunio i wneud y mwyaf o'r gwasanaethau hyn, gan sicrhau'r defnydd o nodweddion naturiol, yn arbennig y rhai sydd eisoes yn bodoli. Cyfeiriwch at bolisi DM22: Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd yn Gyffredinol y CDLl.

Bydd rhagor o wybodaeth i'w gweld yn y CCA: Cadwraeth Natur pan gaiff ei gynhyrchu.

# 5. Cyfrifo Man Agored ar Safleoedd Datblygu

Mae Polisi LU24 yn ceisio darparu mannau agored yn unol â'r meincnodau a osodwyd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru 'Pecyn Cymorth Mannau Gwyrdd' (Cyfoeth Naturiol Cymru erbyn hyn) a Safonau Meysydd Chwarae Cymru.

Mae hyn wedi'i osod fel 2.8 hectar y 1000 o bobl wedi'i rannu'n fan gwyrdd naturiol hygyrch o 2 hectar (safonau Cyngor Cefn Gwlad Cymru) a 0.8 hectar o fan chwarae (safonau Meysydd Chwarae Cymru). Mae'r fformiwla ar gyfer cyfrifo cyfanswm y man agored sy'n ofynnol fel a ganlyn:

> **2.8 hectar y 1000 o'r boblogaeth 2.8/1000 * nifer yr ystafelloedd gwely = cyfanswm man agored.**

Mae swm y tir a geisir ar gyfer darpariaeth man agored o dan Bolisi LU24 yn dibynnu ar nifer yr ystafelloedd gwely sy'n cael eu datblygu, ac felly po fwyaf o ystafelloedd

gwely 'a ddatblygir' (yn dibynnu wrth gwrs ar y math o annedd), po fwyaf y gwahanol lefelau a mathau o fannau agored sy'n ofynnol.

Fel canllaw cyffredinol gellir defnyddio'r tabl isod i ganfod pa fath o ddarpariaeth sy'n ofynnol o fewn datblygiad arfaethedig. Fodd bynnag, os ydych yn teimlo na allwch ddarparu'r hyn a awgrymir, gallwch wneud y cyfrifiad i ganfod yr union swm o dir y dylid ei roi fel man agored; yn yr achos hwn bydd rhaid cyflwyno cyfiawnhad seiliedig ar dystiolaeth i esbonio pam nad oes modd bodloni'r cyfraniad yn llawn.

**Tabl 1: Cyfrifiad darpariaeth man agored yn seiliedig ar nifer yr ystafelloedd gwely a gynigir fel rhan o'r datblygiad.**

| Nifer yr ystafelloedd gwely | Brasamcan o nifer yr unedau | Cyfrifiad | Math o ddarpariaeth sy'n ofynnol |
|---|---|---|---|
| 10 | 3-7 | Gwely x 0.0028 hectar | Man Gwyrdd Amwynder Naturiol |
| 20 | 8 - 12 | Gwely x 0.0028 hectar | Man Gwyrdd Amwynder Naturiol |
| 40 | 13 - 22 | Gwely x 0.002 hectar | Man Gwyrdd Naturiol Hygyrch Cymunol |
| | | Gwely x 0.008 hectar | Man Chwarae Naturiol Heb Offer |
| 60 | 23 - 30 | Gwely x 0.002 hectar | Man Gwyrdd Naturiol Hygyrch Cymunol |
| | | Gwely x 0.008 hectar | Man Chwarae Naturiol ag Offer |
| 120 | 31 - 89 | Gwely x 0.002 hectar | Man Gwyrdd Naturiol Hygyrch Cymunol |
| | | Gwely x 0.008 hectar | Man Chwarae Naturiol ag Offer |
| 240 | 90 - 100 | Gwely x 0.002 hectar | Man Gwyrdd Naturiol Hygyrch Cymunol |
| | | Gwely x 0.008 hectar | Man Chwarae Naturiol ag Offer a Man Adloniant Anffurfiol |

Fe sylwch nad oes rhaid i'r datblygiadau llai, e.e. y rhai sy'n creu 20 ystafell wely, ddarparu man chwarae dynodedig. Y rheswm am hyn yw bod y safleoedd hyn yn fach ar y cyfan ac felly er mwyn gwneud safleoedd yn fwy agored i'w datblygu dylai'r tirlunio a'r man gwyrdd amwynder cyffredinol annog chwarae yn hytrach na chael man chwarae dynodedig.

Pan oedd yr Awdurdod Cynllunio Lleol wedi neilltuo tir ar gyfer tai yn y CDLl cafodd y ddarpariaeth o fan agored ei hystyried wrth gyfrifo'r dwyseddau.

Ond nid yw'r Awdurdod, fel rhan o'r wybodaeth a ddarperir ar safleoedd dynodedig (Cyfrol 2a o'r CDLl), yn datgan faint o'r safle ddylai ddarparu ar gyfer man agored. Y rheswm am hyn yw, er bod modd cyfrifo'r man agored sy'n ofynnol, mae'r un mor debygol mewn rhai achosion y gallai datblygwyr gynnig darpariaeth well mewn ardaloedd llai a all fod yr un mor dderbyniol ym marn yr Awdurdod. Fodd bynnag, mae'r Atodlenni Safleoedd Dynodedig yn amlinellu'r math o ddarpariaeth sy'n debygol o gael ei cheisio gan safleoedd tai dynodedig.

Hefyd gall fod modd darparu rhan o'r man agored mewn ardaloedd o'r safle a gafodd eu symud o'r tir sydd ar gael i'w ddatblygu am resymau eraill, e.e. bioamrywiaeth, systemau draenio cynaliadwy. Cyfeirir at yr ardaloedd hyn fel ardaloedd na ellir eu datblygu, ni ellir adeiladu arnynt ond maent yn parhau i ffurfio rhan o'r safle datblygu, a gellir eu defnyddio i fodloni gofynion yn ymwneud â bioamrywiaeth a man agored achlysurol, systemau draenio cynaliadwy ac ati.

Fodd bynnag, os hoffech gyfrifo yn union faint o dir sydd ei angen fel rhan o'r datblygiad gallwch wneud hynny drwy'r cyfrifiadau canlynol:

<u>Enghraifft 1: 25 ystafell wely</u>

25x0.002 hectar (man gwyrdd naturiol) = 0.05 hectar

25x0.0008 hectar (man chwarae) = 0.02 hectar

0.05+0.02=0.07 hectar

Cyfanswm y tir sy'n ofynnol ar gyfer man agored fyddai 0.07 hectar. Yn seiliedig ar y canllawiau yn Nhabl 1 y ddogfen hon, byddai'r math o fan agored a geisir ar gyfer y lefel hon o ddatblygiad yn fan gwyrdd amwynder naturiol.

<u>Enghraifft 2: 40 ystafell wely</u>

40x0.002 hectar (man gwyrdd naturiol) = 0.08 hectar

40x0.0008 hectar (man chwarae) =0.032 hectar

0.08+0.032= 0.11 hectar

Cyfanswm y tir sy'n ofynnol fyddai 0.11 hectar. Yn seiliedig ar y canllawiau yn Nhabl 1 y ddogfen hon, byddai'r math o fan agored a geisir ar gyfer y lefel hon o

ddatblygiad yn cael ei ddarparu fel man gwyrdd hygyrch cymunol a man chwarae naturiol heb offer. Mae dau fath o fan chwarae yn ofynnol ar y lefel hon oherwydd maint y datblygiad.

## 6. Cynllunio Man Agored

> Os yw eich cais chi'n effeithio ar ddarpariaeth y mannau agored presennol yna mae polisi LU22: Darpariaeth Gymunedol yn gymwys. Gweler Adran 11 y ddogfen hon.

Dylai cynllun unrhyw ddatblygiad newydd fod yn broses gynhwysol er mwyn iddo allu helpu i godi dyheadau cyhoeddus, atgyfnerthu balchder ac ymdeimlad o le mewn ardal.

Gan fod y CDLl yn gofyn i'r holl dai dynodedig ac unrhyw ddatganiad tai annisgwyl sy'n creu deg ystafell wely neu fwy, sy'n cynnwys addasiadau, i ddarparu man agored, mae canolbwyntio ar gynllunio'r man hwnnw yn anochel.

Fodd bynnag, elfen allweddol yn y broses gynllunio yw ystyried sut y caiff y safle cyfan ei ddatblygu ac felly dim ond un elfen i'w ystyried yn y cynllun ar y cychwyn yw'r man agored.

Er mwyn i'r man agored weithio'n dda a chael ei dderbyn gan y gymuned leol, bydd rhaid iddo fod yn rhan annatod o'r datblygiad, nid cael ei adael i'r diwedd fel ychwanegiad neu ôl-ystyriaeth.

Bydd lleoliad y man agored yn cyfrannu at ei ddefnydd yn y dyfodol. Os yw'n rhy agos i'r tai mae perygl y bydd rhai trigolion yn cwyno am sŵn neu'r difrod a achosir gan gemau pêl. Os yw wedi'i guddio mewn cornel gysgodol, ni chaiff ei ddefnyddio o gwbl a gall fod yn 'fan dympio'.

Mae Polisi DM10: Dylunio a Thirweddu yn gofyn i'r rhan fwyaf o ddatblygiadau newydd gyflwyno cynllun tirlunio. Mae'n bwysig ystyried sut y gall tirlunio cyffredinol y safle gyfrannu at rai o'r gofynion man agored, a sut y bydd unrhyw fan agored dynodedig yn gweddu i'r datblygiad a'i dirluniad cyffredinol.

Mae cynnwys tirlunio ychwanegol fel rhan o'ch safle, e.e. plannu coed, cloddiau newydd ac ati, i gyd yn ychwanegu at gyfoeth gweledol y safle. Ar safleoedd llai mae'r tirlunio yn hanfodol i helpu i wneud i'r safle deimlo'n aeddfed ac yn groesawgar. Drwy gael tirlunio diddorol fel rhan o'r safle, mae'n annog trigolion i ddefnyddio'r safle ac ymgysylltu â'i gilydd. Dylai datblygwyr asesu i benderfynu pa nodweddion cyfredol y gellid eu hymgorffori yn y man agored e.e. o blith y coed presennol. Gall hyd yn oed ychydig bach o waith tirlunio fod yn fuddiol i'r amgylchedd lleol.

Mae hefyd yn bwysig asesu sut y mae'r safle yn gweithio yn y cyd-destun ehangach, er enghraifft, a oes modd ei gysylltu â man/llwybr gwyrdd sy'n bodoli, beth ellir ei wneud i wneud y datblygiad yn 'wyrddach'. Cyfeiriwch at CCA: Yr Amgylchedd Adeiledig pan gaiff ei gynhyrchu.

Mae darparu mynediad gwell a rheoli'r ardal gyhoeddus yr un mor bwysig â darparu meysydd chwarae. Dylid ystyried y Canllawiau Cynllunio Atodol sy’n ymwneud â Dylunio a Pholisi DM09: Dylunio a Symudiadau wrth ddylunio’r man agored, gan sicrhau bod y llwybrau at y man agored ac oddi wrtho’n ddiogel.

## 7. Mannau Chwarae

Yn y ddogfen 'Creu Cyfle i Chwarae - Canllawiau Statudol i Awdurdodau Lleol' ar asesu a oes digon o gyfleoedd chwarae i blant yn eu hardaloedd, mae Llywodraeth Cymru yn disgrifio amgylchedd chwarae cyfoethog fel un sy'n hyblyg, addasadwy, amrywiol a diddorol. Mae hefyd yn gwneud y mwyaf o'r potensial ar gyfer cymdeithasu, creadigrwydd, dyfeisgarwch, her a dewis. Mae'n fan cyhoeddus lle mae plant yn teimlo'n rhydd i chwarae yn eu ffordd eu hunain, ar eu telerau eu hunain.

Mae mannau chwarae yn allweddol o ran sicrhau bod gan blant fynediad i fannau agored. Mae ardaloedd a ddiffinnir fel 'mannau chwarae' yn amrywio'n fawr nid yn unig o ran a oes unrhyw offer chwarae ar gael neu a yw dim ond yn ddarn o dir lle y gall pobl fwynhau bod yn yr awyr agored, ond hefyd o ran pwy sy'n gyfrifol am reoli'r tir.

Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi cynnal archwiliad o'r mannau agored sydd ar gael yn y sir gan ganolbwyntio ar y Canolfannau Gwasanaeth a ddiffinnir gan y CDLl (gweler Cyfrol 1, Atodiad 1 am restr o Ganolfannau Gwasanaeth). Mae ar gael ar wefan y Cyngor http://www.ceredigion.gov.uk/ldp

Yr hyn y mae'r adroddiad yn ei ddangos yw bod y mannau agored sydd ar gael mewn sawl ardal yn gyfyngedig. Er bod amrywiaeth o gyfleusterau mannau agored ffurfiol e.e. cyrtiau tennis, caeau pêl-droed ac ati ar gael yn y Canolfannau Gwasanaeth Trefol i fodloni anghenion y gymuned, roedd diffyg amlwg o fannau agored ffurfiol o fewn 60 metr. Dyma'r pellter llinell syth sy'n dangos pa mor bell y dylai rhywun gerdded i gael defnyddio'r math hwn o gyfleuster yn ôl y diffiniad ohono yn Safonau Meysydd Chwarae Cymru.

Mae cael man diogel lle y gall plant a phobl ifanc fynd iddo yn hanfodol i'w datblygiad corfforol, cymdeithasol a gwybyddol. Fodd bynnag, mae man awyr agored yn arbennig o werthfawr i bawb oherwydd mae'n darparu cyfleoedd i brofi'r elfennau ond hefyd darparu gwerth cymdeithasol i rieni, oedolion ifanc a'r henoed i gwrdd yn anffurfiol, gan ddarparu cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio aml-genhedlaeth, cymdeithasol.

## 8. Y Deg Egwyddor ar gyfer Cynllunio Mannau Chwarae

Mae man chwarae llwyddiannus yn fan ynddo'i hun, wedi'i gynllunio'n arbennig ar gyfer ei leoliad, a'i ddarparu ar gyfer yr ardal honno. Nid yw'n fater o 'fod yn addas i bawb', dylai pob man fod yn bwrpasol i bob datblygiad.

Mae gan Play England amryw o adnoddau i helpu i gynllunio mannau chwarae. Gall yr egwyddorion hyn fod yr un mor gymwys yng Nghymru. Maen nhw wedi llunio rhestr o'r Deg Egwyddor y dylid eu hystyried wrth ddatblygu a chynllunio mannau agored, sef:

1. **Dychmygu man chwarae wedi'i gynllunio i wella ei leoliad:** Mae mannau chwarae llwyddiannus wedi'u cynllunio i weddu i'w hamgylchiadau a gwella'r amgylchedd lleol, gan gyflenwi mannau deniadol a gwella amgylcheddau o safon is.

2. **Dychmygu man chwarae yn y lle gorau posibl:** Mae mannau chwarae llwyddiannus wedi'u lleoli'n ofalus i 'fod lle y byddai plant yn chwarae yn naturiol.' Er bod plant yn aml yn mwynhau teimlo fel pe baent i ffwrdd o oruchwyliaeth oedolion, mae'n bwysig cynnal cydbwysedd rhwng cael lle diarffordd pleserus a rhywle anghysbell a chuddiedig.

3. **Dychmygu man chwarae sy'n agos i natur:** Gall twmpathau glaswelltog, plannu, boncyffion a chlogfeini i gyd helpu i wneud lleoliad mwy deniadol, addas ar gyfer chwarae i'r offer, a gall plannu hefyd helpu i ddenu adar a bywyd gwyllt er mwyn dod â'r man chwarae yn fyw yn llythrennol.

4. **Dychmygu man chwarae lle y gall plant chwarae mewn ffyrdd gwahanol:** Gall mannau chwarae llwyddiannus gael eu defnyddio mewn ffyrdd gwahanol gan blant a phobl ifanc o oedran a diddordebau gwahanol; gallant fod yn fannau cymdeithasol pwysig i rieni a gofalwyr, yn ogystal â'r plant.

5. **Dychmygu man chwarae lle y gall plant anabl a heb fod yn anabl chwarae gyda'i gilydd:** Gall plant gyda galluoedd gwahanol chwarae gyda'i gilydd mewn mannau chwarae wedi'u cynllunio'n dda, a dylai rhieni a gofalwyr sydd yn anabl eu hunain allu cael mynediad i fannau chwarae os ydynt yn dod gyda'u plant.

6. **Dychmygu man chwarae y mae'r gymuned yn ei garu:** Bydd proses lwyddiannus o ymgysylltu â'r gymuned yn helpu i greu safle y mae'r gymuned yn ei hoffi ac sy'n bodloni ei hanghenion.

7. **Dychmygu man chwarae lle y gall plant o bob oedran chwarae gyda'i gilydd:** Mae mannau chwarae da yn osgoi gwahanu plant ar sail oedran neu allu, ac wedi'u cynllunio er mwyn i'r offer a'r nodweddion gael eu defnyddio gan ystod eang o blant, a hyd yn oed caniatáu gwahanol batrymau o ddefnydd yn ystod y dydd neu'r wythnos.

8. **Dychmygu man chwarae lle y gall plant ymestyn a herio eu hunain ym mhob ffordd:** Mae angen cyfleoedd ar blant a phobl ifanc i brofi her a chyffro yn eu chwarae.

9. **Dychmygu man chwarae sy'n cael ei gynnal ar gyfer gwerth chwarae a chynaliadwyedd amgylcheddol:** Mae mannau chwarae da wedi'u cynllunio a'u hadeiladu gan ddefnyddio deunyddiau cynaliadwy a'u cynnal i annog profiadau chwarae gwahanol.

10. **Dychmygu man chwarae sy'n esblygu wrth i'r plant dyfu:** Mae adeiladu ychydig o 'ofod llac' yn y cynllun - gofod heb unrhyw swyddogaeth wedi'i rhag-ddiffinio - yn gallu helpu i gyflwyno'r potensial ar gyfer newid ac esblygu.

(Design for play: a guide to creating successful play spaces, Play England, 2008)

## 9. Mannau Agored Mewn Datblygiadau Dibreswyl

Mae mannau agored yn bwysig ar gyfer datblygiadau preswyl a hefyd nifer o fathau eraill o ddatblygiadau, er enghraifft, swyddfeydd, ysbytai ac ati.

Dylai darparu man agored yn yr ardaloedd hyn barhau i gael ei seilio ar y mathau o fan naturiol a nodwyd yn flaenorol yn y ddogfen hon, fodd bynnag, cydnabyddir mewn rhai sefyllfaoedd ni allai'r rhain fod yn gwbl briodol.

O fewn datblygiadau sy'n seiliedig ar waith, e.e. datblygiadau swyddfa, cewch eich annog i ddarparu rhywfaint o seddi yn yr awyr agored i'r staff. Gallai hyn fod ar ffurf meinciau picnic syml er mwyn i'r staff allu bwyta yn yr awyr agored amser cinio.

Ar gyfer ysbytai, gall mynediad i fannau agored helpu i wella iechyd a lles cleifion, gan roi amser iddynt ddianc o amgylchedd clinigol. Mae'n rhaid i fannau agored o fewn safleoedd ysbyty gael eu hystyried yn ofalus, gan sicrhau bod y lle sydd ar gael yn addas i bawb, gan gynnwys y rhai a all fod yn sâl iawn.

Yn aml mae rhai elfennau sy'n gwella datblygiad newydd mewn ffordd gadarnhaol yn cael eu diystyru pan fydd y datblygiad ar gyfer grŵp penodol, e.e. llety myfyrwyr. Mae darparu lle agored yn bwysig ar gyfer y meddianwyr hyn fel unrhyw grŵp arall, mwy o bosib oherwydd mae llawer llai o le personol ganddynt yn aml na datblygiad preswyl preifat traddodiadol.

## 10. Cynnal a Chadw a Mabwysiadu Man Agored

Mae cynnal a chadw man agored yn gyffredinol yn hollbwysig i sicrhau llwyddiant hirdymor y man agored. Mae nifer o ddewisiadau ar gael o ran pwy sy'n mabwysiadu ac yn cynnal y man agored.

Yn gyffredinol, ni fydd y Cyngor Sir a'r Cynghorau Tref/Cymuned yn cymryd perchnogaeth o'r man agored oherwydd y gost o'i gynnal. Ni fydd y sefyllfa hon yn bodoli bob amser a gall y Cyngor Sir a rhai Cynghorau Tref/Cymuned fod yn barod i gymryd perchnogaeth os yw swm gohiriedig yn cael ei ddyfarnu am gyfnod

cytunedig o amser e.e. 5, 10 neu 20 mlynedd. Awgrymir eich bod yn cysylltu â'r Cyngor Sir a/neu'r Cyngor Tref/Cymuned cyn cyflwyno eich cais i weld a fydden nhw'n barod i fabwysiadu a chynnal y man agored.

Dull arall yw codi 'Ffi Rheoli/Cynnal a Chadw' ar ddeiliaid tai. Mae hon yn ffi flynyddol yn aml sy'n cael ei thalu gan y deiliaid tai i 'gronfa' ganolog, ac mae'r arian yn cael ei ddefnyddio i gynnal a rheoli'r man agored.

Ymhen amser efallai y bydd y rhai sy'n byw ar y datblygiad am sefydlu Grŵp Trigolion neu Gymdeithas Gymunedol a chymryd drosodd y gwaith o redeg a chynnal yr ardal.

Os yw rhan neu'r cyfan o'r datblygiad yn cynnwys Cymdeithas Dai, gall y sefydliad hwnnw fod yn barod i gymryd perchnogaeth a'r gwaith cynnal a chadw ar ran ei denantiaid.

## 11. Y Broses Cais Cynllunio a Mannau Agored Newydd

Cyn cyflwyno cais cynllunio cynghorir eich bod yn cael trafodaeth cyn-ymgeisio â'r Gwasanaeth Cynllunio. Bydd hyn yn eich galluogi chi a'r Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl) i drafod eich cynigion a chael cyngor ac arweiniad ar y datblygiad arfaethedig. I drefnu trafodaeth cyn-ymgeisio gallwch lawrlwytho'r ffurflen ar wefan y Cyngor www.ceredigion.gov.uk

Fel rhan o'ch cais cynllunio mae'n rhaid i chi anfon gwybodaeth glir er mwyn i'r ACLl allu penderfynu a yw'r hyn rydych yn ei gynnig yn bodloni meini prawf polisi'r CDLl. Mae'n rhaid i chi gyflwyno:

- Cynllun sy'n dangos yn glir ble y caiff y man agored ei leoli;
- Gwybodaeth a manylion am y math o fan agored sydd i'w ddarparu; a
- Gwybodaeth ynghylch sut y caiff y man agored ei gynnal: mabwysiadu gan gyngor cymuned, ffi rheoli/cynnal a chadw ac ati.

## 12. Man Agored sy'n Bodoli

Mae Polisi LU22: Darpariaeth Gymunedol yn ceisio atal colli adeiladau a mannau a ddefnyddir gan y gymuned. Mae hyn yn cynnwys colli mannau agored sy'n bodoli.

**Polisi LU22:**

**Darpariaeth Gymunedol**

Bydd y CDLl yn helpu i gynnal a gwella darpariaeth gymunedol drwy:

1. Cefnogi datblygu darpariaeth gymunedol gynaliadwy newydd, ar yr amod:
    i. Ei fod wedi'i leoli o fewn neu'n ffinio ag anheddiad;

ii. Mae'r cais cynllunio yn dangos bod hygyrchedd amlddefnydd wedi cael ei ystyried;
iii. Nid yw unrhyw gyfleuster addas yn bodoli yn gyfagos a allai ddarparu'n briodol ar gyfer y defnydd arfaethedig; a
iv. os yw'r cynnig ar gyfer cyfleuster sy'n cael ei adleoli, gellir dangos nad yw'r safle presennol yn addas mwyach ar gyfer y defnydd hwnnw.

2. Atal colli neu newid defnydd darpariaeth gymunedol sy'n bodoli oni bai:

i. Gall darpariaeth arall sydd o leiaf o werth cymuned leol gyfatebol gael ei darparu naill ai o fewn neu'n ffinio â'r anheddiad neu aneddiadau eraill sy'n rhan o'r Grŵp Aneddiadau. Mewn perthynas â'r man agored yn benodol, dylai'r dewis arall fod yn ddarpariaeth well a leolir os oes modd o fewn cyrraedd hawdd i'r ddarpariaeth sy'n bodoli.
ii. Gellir dangos bod y lefel bresennol o ddarpariaeth gymunedol yn amhriodol neu'n fwy nag anghenion y gymuned neu anghenion yr anheddiad neu'r Grŵp Aneddiadau hwnnw; neu
iii. Nid yw'r defnydd presennol yn hygyrch mwyach ac nid yw'n ymarferol i sefydlu unrhyw ddefnydd cymunedol arall.

Rhaid cyflwyno adroddiad gydag unrhyw gais cynllunio ar gyfer newid defnydd neu golli cyfleuster gan esbonio pam mae'r golled neu'r newid defnydd wedi'i gyfiawnhau.

Mewn rhai achosion gall datblygiad effeithio ar ddarpariaeth gymunedol sy'n bodoli. Pan fydd y ddarpariaeth hon wedi'i gysylltu â man agored mae'n bwysig eich bod wedi ymgynghori ac ymgysylltu â defnyddwyr y man agored mewn ffordd briodol. Mae'n bwysig eich bod yn ymgysylltu â'r holl bobl sy'n defnyddio'r ddarpariaeth gymunedol, boed yn blant neu'n oedolion.

Mae'n bwysig cydnabod y bydd ymgynghori â phlant a phobl ifanc yn gofyn am ddulliau ymgysylltu gwahanol.

Mae RAY Ceredigion (http://www.rayceredigion.org.uk) wedi'i leoli yn Aberaeron ac yn gallu dylunio ac arwain yn ddwyieithog ar brosiectau ymgynghorol gyda phlant a chymunedau i gael barn plant, pobl ifanc a'r gymuned ehangach.

Mae Swyddog Cyfranogiad Cyngor Sir Ceredigion yn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cymryd rhan wrth ddatblygu gwasanaeth, polisi a chynllunio a gall roi cyngor a chymorth. Cysylltwch â'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc ar 01545 574185.

Er mwyn i'r ACLI fodloni ei hun fod y ddarpariaeth gymunedol sy'n bodoli naill ai'n ddiangen mwyach neu gellir lleihau'r effaith (e.e. adleoli), dylid cyflwyno adroddiad gyda'r cais cynllunio sy'n amlinellu:

- manylion yr ymgynghori a fu â'r gymuned leol a'i chasgliadau;
- tystiolaeth ynghylch pam nad oes angen y ddarpariaeth sy'n bodoli mwyach (os mai dyma yw'r achos); a
- thystiolaeth i ddangos sut mae'r golled wedi cael ei rwystro (os mai dyma yw'r achos).

## 13. Cais Cynllunio a Man Agored sy'n Bodoli

Cyn cyflwyno cais cynllunio cynghorir eich bod yn cael trafodaeth cyn-ymgeisio â'r Awdurdod Cynllunio Lleol. Bydd hyn yn eich galluogi chi a'r Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI) i drafod eich cynigion ac i chi gael cyngor ac arweiniad ar y datblygiad arfaethedig. I drefnu trafodaeth cyn-ymgeisio gallwch lawrlwytho'r ffurflen ar wefan y Cyngor www.ceredigion.gov.uk

Fel rhan o'ch cais cynllunio mae'n rhaid i chi anfon gwybodaeth glir er mwyn i'r ACLI allu penderfynu a yw'r hyn rydych yn ei gynnig yn bodloni meini prawf polisi'r CDLl. Os ydych yn cynnig ailddatblygu man agored sy'n bodoli bydd rhaid i chi gyflwyno datganiad sy'n esbonio'r cynnig. Os yw'r man agored i'w ail-leoli ac ati, bydd rhaid i chi esbonio pam mae'n rhaid symud y man agored a ble fydd y ddarpariaeth arall yn cael ei lleoli.

## 14. Casgliad

Mae Mannau Agored yn gwella cymeriad ac atyniad ardal. Mae man agored yn un elfen o ddarparu'r Seilwaith Gwyrdd, sy'n rhwydwaith o fannau gwyrdd a glas o ansawdd, sy'n cynnig budd i'r gymuned a'r amgylchedd lleol.

Mae mannau agored yn darparu cyfle i drigolion Ceredigion fod yn fwy heini ac iach. Mae hefyd yn helpu datblygiadau newydd i weddu'n well â'r tirlun sy'n bodoli a gall ychwanegu gwerth at ddatblygiad newydd.

Mae'r man agored sy'n ofynnol fel rhan o unrhyw ddatblygiad newydd yn gallu cael ei gyflenwi mewn cyfuniad â gofynion polisi eraill. Gall datblygwr fodloni'r gofynion man agored, bioamrywiaeth a draenio cynaliadwy i gyd o fewn yr un darn o dir. Gall y dull integredig hwn helpu i leihau swm y tir heb ei ddatblygu o fewn datblygiad.

Yn gyffredinol mae mannau agored yn cynnig budd i'r unigolyn a'r datblygwr.

## Cyfeiriadau ac Adnoddau

Dyma rai adnoddau a allai fod yn ddefnyddiol i chi wrth gynllunio eich man agored.

http://www.ceredigion.gov.uk/ldp

http://www.forestry.gov.uk/forestry/INFD-7LSEHW

http://www.playwales.org.uk

http://www.rayceredigion.org.uk/

http://www.playengland.org.uk/

http://naturalresourceswales.gov.uk

http://www.ccw.gov.uk/default.aspx

http://www.participationworks.org.uk

## Geirfa

**Ecosystem:** System wedi'i ffurfio o blanhigion, anifeiliaid, micro-organebau, pridd, creigiau, mwynau, ffynonellau dŵr a'r awyrgylch lleol yn rhyngweithio â'i gilydd.

**Seilwaith Gwyrdd:** rhwydwaith o fannau agored gweithredol.

**Cytundeb Adran 106:** Mae Cytundeb Adran 106 Deddf Cynllunio Tref a Gwlad 1990 yn caniatáu i Awdurdod Cynllunio Lleol lunio cytundeb cyfreithiol-rwymol neu rwymedigaeth gynllunio â thirfeddiannwr mewn perthynas â rhoi caniatâd cynllunio.

**Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS):** System ddraenio sy'n cael ei datblygu yn unol ag egwyddorion datblygu cynaliadwy sy'n ystyried maint, ansawdd ac amwynder.

**Man Agored:** Yr holl fannau agored o werth cyhoeddus, nid dim ond tir, ond hefyd cyrff o ddŵr sy'n cynnig cyfleoedd pwysig ar gyfer chwaraeon ac adloniant awyr agored ond sydd hefyd yn gweithredu fel amwynder gweledol.

**Safle Annisgwyl (heb ei ddynodi):** Safle heb ei ddynodi'n benodol i'w ddatblygu mewn cynllun datblygu, ond a ddaw yn rhydd i'w ddatblygu yn annisgwyl yn ystod cyfnod y cynllun.